



Home Office

Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd (PIN)

**Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol
1988 (Arfau Tramgwyddus) (Diwygiad,
Ildio ac lawndal) 2024**

Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd

Bydd eich gwybodaeth bersonol, a gyflenwir at ddibenion Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Tramgwyddus) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) 2024 Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Tramgwyddus) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) 2024 yn cael ei chadw a'i phrosesu gan y Swyddfa Gartref, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Y Swyddfa Gartref yw 'Rheolwr' y wybodaeth hon. Mae hyn hefyd yn cynnwys pan gaiff ei gasglu neu ei brosesu gan drydydd partion ar ein rhan.

Gellir dod o hyd i fanylion Swyddog Diogelu Data'r Adran yn [y Siarter Gwybodaeth Bersonol](#).

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae'r Swyddfa Gartref yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol i gyflawni ei swyddogaethau statudol cyfreithiol a swyddogol. Byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth bersonol pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny a lle bo'n angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny.

Ni chaniateir i'r Swyddfa Gartref ond brosesu eich data os oes sail gyfreithlon dros wneud hynny. Mae gennym systemau a pholisïau ar waith i gyfyngu mynediad i'ch gwybodaeth ac atal datgeliad heb awdurdod. Rhaid i staff sy'n cyrchu gwybodaeth bersonol gael cliriad diogelwch priodol ac angen busnes i gael mynediad at y wybodaeth, ac mae eu gweithgaredd yn destun archwiliad ac adolygiad.

Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y gallwn gasglu eich gwybodaeth bersonol yn cynnwys:

- Pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad iawndal i'r heddlu am unrhyw arf a ildiyd.
- Pan fydd yr heddlu yn anfon eich hawliad iawndal ac unrhyw ddogfennau ategol i'r Swyddfa Gartref at ddibenion ystyried a phrosesu eich cais.
- Gallwch e-bostio ein blwch post ymholiadau penodol ar y cynllun am unrhyw ymholiadau.
- Byddwn yn ceisio gwirio unrhyw wybodaeth, dogfennau neu hunaniaeth a gyflwynir fel rhan o'ch hawliad am iawndal; a
- Byddwch yn gallu cysylltu â'r Swyddfa Gartref i godi anghydfod ynghylch faint o iawndal a gynigiwyd.

Byddwn yn prosesu ac yn cadw eich gwybodaeth bersonol er mwyn ystyried eich hawliad am iawndal.

- Enghreifftiau o sut y gallwn ddefnyddio eich data:
- I wirio eich gwybodaeth neu unrhyw ddogfennau ategol.
- I gadarnhau manylion eich cais.
- I gysylltu â chi mewn perthynas ag ystyried eich iawndal; a
- Gwneud penderfyniad mewn perthynas â'ch hawliad iawndal.

Bydd gan yr heddlu fel corff cyhoeddus fynediad at eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'r trefniadau ar gyfer y cynllun ildio ac iawndal. Mae'n ofynnol o dan y Gorchymyn i bob hawliwr

gyflwyno eu ffurflenni hawlio iawndal ar yr un pryd ag y maent yn ildio eu harf i'r heddlu. Bydd yr heddlu'n gwirio pwy ydych chi a'r wybodaeth ar eich ffurflen hawlio, gwiriwch fod y ffurflen wedi'i cwblhau'n gywir ac yn gwirio bod unrhyw ddogfennaeth ategol wedi'i hamgáu gyda'r ffurflen. Bydd yr heddlu'n cwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen hawlio i gadarnhau eu bod wedi gwirio'r ffurflen, wedi cadarnhau pwy ydych chi ac mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem a darparu rhif adnabod unigryw ar gyfer eich hawliad. Bydd pob hawliwr yn derbyn derbynneb ar gyfer eu cais gyda rhif adnabod unigryw. Yna bydd y ffurflen hawlio'n cael ei hanfon yn electronig gan yr heddlu i'r Swyddfa Gartref i ystyried eich hawliad am iawndal.

Mae rhagor o wybodaeth am y ffyrdd y gall y Swyddfa Gartref ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys y dibenion yr ydym yn ei defnyddio, y sail gyfreithiol, a gyda phwy y gellir rhannu eich gwybodaeth â nhw ar [gael yn yr Wybodaeth Bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i phrosesu](#).

Storio eich gwybodaeth

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw cyhyd ag sy'n angenrheidiol at y diben y mae'n cael ei phrosesu ar ei gyfer ac yn unol â pholisi cadw adrannau. Mae mwy o fanylion am y polisi hwn i'w gweld yn [Cadw Gwybodaeth Bersonol](#).

Gofyn am fynediad i'ch data personol

Mae gennych hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth bersonol sydd gan y Swyddfa Gartref amdanoch.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hefyd yr hawl i:

- 1) Gywiro unrhyw ddata rydych chi'n ei benderfynu sydd yn anghywir neu ar goll
- 2) Dileu eich data personol
- 3) Cyfyngu ar y defnydd o'ch data personol
- 4) Gwrthwynebu iddo gael ei ddefnyddio

Gellir dod o hyd i fanylion am sut i wneud y cais yn [Sut i ofyn am eich gwybodaeth bersonol](#).

Hawliau eraill

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych yr hawl i:

1. wrthwynebu a chyfyngu ar y defnydd a wneir o'ch gwybodaeth bersonol, neu ofyn am gael dileu neu gywiro eich data.
2. Lle rydych wedi cydsynio'n benodol i ddefnyddio'ch data personol a dyna'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl i brosesu eich data a'r hawl i gludadwyedd data (lle mae'r prosesu'n cael ei wneud trwy ddulliau awtomataidd)

Cwestiynau neu bryderon am ddata personol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am gasglu, defnyddio neu ddatgelu eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddfa Gartref drwy info.access@homeoffice.gov.uk

Mae gennych hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd mae'r Swyddfa Gartref yn trin eich gwybodaeth bersonol. Gellir dod o hyd i fanylion ynglŷn â sut y gallwch wneud hyn ar <https://ico.org.uk/>